# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un) – Trefniadau Cynllunio Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2364A2021-22.

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21 7

Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol 7

Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol 9

**Atodiadau**

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 11

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam cyntaf Asesiad Strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ar y trefniadau cynllunio gweithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd). Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2020-2023, i gael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, fe ataliodd Llywodraeth Cymru'r broses ar gyfer cymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i alluogi cyrff iechyd i ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19.

3 Fe nododd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon gylchoedd cynllunio byrrach i gyrff iechyd ar gyfer 2020-21. Roedd canllawiau'n nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio, gyda'r gofyniad i gyrff iechyd baratoi cynllun chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol ar gyfer chwarteri tri a phedwar erbyn 19 Hydref 2020.

4 Mae'r fframwaith cynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21 yn cynnwys cynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i roi arweiniad o ran eu hymateb parhaus i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a goblygiadau pontio o'r UE. Mae angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21 hefyd.

5 Yn yr adroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 fe wnaethom ystyried trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau chwarteri un a dau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio sy'n tanategu datblygiad y cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar yn 2020-21.

6 Hefyd, lle'r ydym yn adnabod unrhyw argymhellion pellach y dylai'r Bwrdd Iechyd eu hystyried wrth ddatblygu ei Gynllun Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2021-22, rydym wedi dwyn y rhain i sylw'r Bwrdd Iechyd.

## Negeseuon allweddol

7 Ar y cyfan, canfuom fod **prosesau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn gadarn yn gyffredinol gan ddarparu hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau newidiol; fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol ac adrodd ar hynny.**

8 Cyflwynwyd Cynllun Gweithredol y Bwrdd ar gyfer Chwarteri 3-4 yn unol â'r estyniad y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Roedd yn ateb gofynion canllawiau fframwaith cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac fe graffodd y Bwrdd arno fel a oedd yn ofynnol.

9 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ei ddull cryf o ran cynllunio gweithredol fel a ddangoswyd yn ei brosesau blaenorol ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn dilyn ymlaen o'r ddau gynllun chwarterol blaenorol ac mae'n seiliedig ar wybodaeth gadarn am y galw a chapasiti. Mae'r cynlluniau'n ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

10 Mae cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau a'r prosesau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol ac adrodd ar hynny. Ar hyn o bryd nid oes prosesau clir i adolygu'r cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun gweithredol.

## Argymhellion

11 Caiff argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn ei grynhoi yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: argymhellion 2021**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Targedau a Cherrig Milltir**<br>A1 Yn ystod ein gwaith ar gyfer Asesiad Strwythuredig 2021 canfuom nad oedd Cynllun Chwarteri 3-4 yn pennu targedau a cherrig milltir mesuradwy. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cynlluniau blynyddol yn nodi targedau a cherrig milltir clir ac yn sicrhau yr adroddir mewn modd effeithiol ar gynnydd, effaith a deilliannau. |
| **Craffu gan Aelodau Annibynnol ar y modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol**<br>A2 Yn ystod ein gwaith ar gyfer Asesiad Strwythuredig 2021 ni chanfuom unrhyw weithgarwch i graffu ar y cynlluniau chwarterol gan y Bwrdd na'i bwyllgorau. |

**Argymhellion**

Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro'r cyfrifoldeb am drosolwg ar lefel strategol i fonitro'r modd y cyflawnir Cynllun Blynyddol 2021-22.

# Adroddiad manwl

## Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21

12 Fe roddodd ein gwaith ystyriaeth i gwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar (Cynllun Chwarteri 3-4) 2020-21 y Bwrdd Iechyd yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

13 Canfuom fod **Cynllun Gweithredol y Bwrdd ar gyfer Chwarteri 3-4 wedi'i gyflwyno yn unol â'r estyniad y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru a'i fod yn ateb gofynion y fframwaith cynllunio cenedlaethol.**

14 Cyflwynwyd Cynllun Chwarteri 3-4 a'r set ddata sylfaenol a oedd yn ei ategu i Lywodraeth Cymru ar 23 Hydref 2020 fel drafft, tra'r oedd cymeradwyaeth gan y Bwrdd yn yr arfaeth. Fe'i cyflwynwyd o fewn y ffrâm amser estynedig a ganiatawyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ar y Bwrdd Iechyd angen estyniad byr (4 diwrnod) i gwblhau'r gwaith o grynhoi'r set ddata sylfaenol, oherwydd achos o heintiau COVID-19 a gafwyd yn yr ysbyty yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Roedd hyn yn golygu bod angen gwneud addasiadau i nifer o dybiaethau a wnaed mewn perthynas â chapasiti gwelyau a chyflawni gweithgarwch dewisol ar gyfer cyfnod Chwarter 3 / Chwarter 4 a achosodd oedi cyn cyflwyno'r set ddata sylfaenol.

15 Tra'r oedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu Cynllun Chwarteri 3-4, rhoddodd wybodaeth reolaidd i'r Bwrdd am y cynnydd a'r rhesymau dros yr oedi cyn ei gyflwyno a hynny trwy sesiynau briffio'r Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgor ffurfiol. Cafodd Cynllun Chwarteri 3-4 ei drafod a'i gymeradwyo yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 29 Hydref 2020.

16 Roedd Cynllun Chwarteri 3-4 yn ateb y gofynion a oedd wedi'u nodi yn fframwaith cynllunio Llywodraeth Cymru gyda sicrwydd yn cael ei ddarparu ynghylch parhad gwasanaethau hanfodol. Mae'r adnoddau y mae eu hangen i gyflawni Cynllun Chwarteri 3-4 wedi'u nodi'n glir hefyd. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn dangos esblygiad o'r cynlluniau chwarterol blaenorol ac yn darparu diweddariad ynghylch cyflawni'r cynllun blaenorol. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn mynd i'r afael â'r pedwar niwed trwy ei naw ffrwd waith ar gyfer cyflawni.

17 Mae'r cynllun yn disgrifio datganiadau lefel uchel ynghylch yr hyn y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i'w gyflawni yng Nghynllun Chwarteri 3-4 ond nid yw'n pennu ystod o dargedau a cherrig milltir mesuradwy. Nid yw'r cynllun yn nodi trefniadau clir ar gyfer monitro cynnydd ac adrodd arno ar lefel strategol ychwaith.

## Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol

18 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu Cynllun Chwarteri 3-4 i ategu ei ymateb parhaus i COVID-19, cynnal gwasanaethau hanfodol, ac adfer gwasanaethau mwy rheolaidd.

19 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu proses gadarn i ddatblygu ei Gynllun Chwarteri 3-4 ar gyfer 2020-21 gyda digon o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau newidiol**.

20 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn ddatblygiad amlwg ar y cynlluniau gweithredol ar gyfer chwarteri un a dau ac yn darparu crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu a nodwyd yn y ddau gynllun. Ni fu unrhyw weithgarwch ffurfiol i werthuso'r dull cynllunio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond mae tystiolaeth o fyfyrdodau a hyder sy'n datblygu yn y cynlluniau.

21 Ceir synergeddau rhwng y cynlluniau chwarterol a chenhadaeth, gweledigaeth ac amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd ar y cyfan. Ailosod CTM yw'r fframwaith gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni cynllun Chwarter 3-4 oddi mewn iddo o hyd gyda'r naw ffrwd waith a arweinir gan y Tîm Gweithredol wedi'u halinio â'i bedwar amcan llesiant strategol. Er nad oes aliniad uniongyrchol rhwng y cynlluniau chwarterol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, fel rhan o ddatblygu cynllun blynyddol 2021-22, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu perthnasedd parhaus y blaenoriaethau yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig fel rhan o'i adferiad parhaus ar ôl COVID-19. O ran datblygu cynllun 2021-22 mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei flaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23.

22 Yn ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2020 fe wnaethom amlygu mai'r Tîm Gweithredol a ddatblygodd gynlluniau gweithredol y Bwrdd Iechyd ar gyfer Chwarter 1 a Chwarter 2. Fodd bynnag, datblygwyd Cynllun Chwarteri 3-4 o'r gwaelod i fyny gyda thimau gweithredol, a hynny wedi'i alinio'n fwy â phroses arferol y Bwrdd Iechyd ar gyfer ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Datblygwyd Cynllun Chwarteri 3-4 gyda'r Grwpiau Ardal Integredig a phartneriaid busnes y Grwpiau Ardal Integredig gan gynnwys cyllid, cynllunio a'r gweithlu

23 Tanategir Cynllun Chwarteri 3-4 gan drefniadau cadarn i fodelu'r galw a chapasiti gyda phenodiad diweddar Prif Swyddog Gwybodaeth yn darparu capasiti ac arbenigedd mewn siartiau modelu a rhagfynegi. Mae gwybodaeth sy'n ategu prosesau i fodelu'r galw a chapasiti yn cynnwys perfformiad yn erbyn cynlluniau chwarter un a dau, y galw am wasanaethau COVID a gwasanaethau eraill, argaeledd y gweithlu a ffactorau eraill, megis canllawiau COVID-19 a gofynion cadw pellter cymdeithasol. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyfraddau trosglwyddo COVID-19, mae gweithgarwch i fodelu'r galw a chapasiti'n seiliedig ar ragfynegiadau o gyfraddau heintio â COVID-19 yn y gymuned i bennu'r galw tebygol am wasanaethau COVID a gwasanaethau eraill a'r gofynion o ran adnoddau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ceisio cynyddu capasiti ychwanegol o'r sector annibynnol i'r eithaf a chynnal gweithgarwch rhithwir gyda chleifion allanol i gryfhau cydnerthedd gwasanaethau ar gyfer cleifion allanol yn chwarteri 3 a 4. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi rôl allweddol gweithio gyda phartneriaid, megis byrddau iechyd cyfagos, cydweithwyr mewn Awdurdodau Lleol a chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

24 Ceir tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu â phartneriaid, megis y Cyngor Iechyd Cymuned a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd gynnwys yr awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo yn y gwaith i ddatblygu'r cynllun ac adnabod y blaenoriaethau er nad oes rolau cyflawni dynodedig yn y cynllun ar gyfer yr awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo.

25 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn cydnabod yr angen am hyblygrwydd ac ystwythder wrth ymateb i newidiadau yn y galw mewn perthynas â COVID-19 gyda'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiadau pythefnosol o'i dybiaethau cynllunio i sicrhau ei fod yn gallu addasu capasiti a lleihau niwed i'r eithaf. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i ddefnyddio'i ddangosyddion rhybudd cynnar i'w alluogi i baratoi ar gyfer ymchwydd sydyn mewn achosion o COVID-19. Fe wnaeth diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Ionawr 2021 nodi'r rhesymau dros wyro oddi wrth Gynllun Chwarteri 3-4 oherwydd y galw mewn perthynas â COVID-19.

## Trefniadau i fonitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol

26 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir Cynllun Chwarteri 3-4 ac yr adroddir ar hynny.

27 Canfuom **gyfleoedd i gryfhau prosesau strategol i fonitro'r modd y cyflawnir y cynlluniau gweithredol ac yr adroddir ar hynny**.

28 Yn weithredol, mae'r Tîm Rheoli Gweithredol a 'Thîm Rheoli Fframwaith Ailosod CTM'[1] yn cael adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y naw ffrwd waith cyflawni. Ar lefel strategol, y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid sy'n gyfrifol am graffu ar gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. O ystyried bod proses y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-2023 wedi'i hatal dros dro ym mis Mawrth 2020, ni wnaeth y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor am graffu ar gyflawni'r cynlluniau chwarterol.

29 Ar hyn o bryd nid oes gan y Bwrdd Iechyd fframwaith clir ar gyfer trosolwg a chraffu strategol ar gyflawni Cynllun Chwarteri 3-4. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn nodi cyfres o gamau gweithredu neu ymrwymiadau yn hytrach na nodi targedau mesuradwy. Fodd bynnag, nid oes crynodeb clir o gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodir. Gallai rhai camau gweithredu, megis cynnal adolygiadau o niwed [posibl] ar gyfer yr holl gleifion sy'n disgwyl am fwy na 104 o ddiwrnodau am ddiagnosis neu driniaeth canser a niferoedd y cleifion a flaenoriaethwyd yn glinigol i gael triniaeth erbyn 31 Mawrth 2021, gael eu cynnwys yn y Dangosfwrdd Perfformiad Integredig y mae'r Bwrdd yn dal i'w gael.

30 Mae'r diffyg targedau mesuradwy ac argaeledd yr wybodaeth hon yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd neu ei bwyllgorau graffu'n briodol ar gyflawni'r cynllun fel rhan o'r

[1] Ailosod CTM yw enw'r fframwaith gweithredu a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd Iechyd i nodi'r camau a gymerir i reoli gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn.

drefn reolaidd neu gael ei sicrhau a yw’r cynnydd yn unol â’r cerrig milltir disgwyliedig. Nid yw’r Bwrdd na’i bwyllgorau wedi cael adroddiadau ffurfiol ar gyflawni ac ni ddigwyddodd yr adroddiad ar gyfer y Bwrdd a oedd yn yr arfaeth ar gyfer mis Medi 2020. Bydd angen i’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer trosolwg a chraffu ar gynllun blynyddol 2021-22.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 1: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Targedau a Cherrig Milltir**<br>A1 Yn ystod ein gwaith ar gyfer Asesiad Strwythuredig 2021 canfuom nad oedd Cynllun Chwarteri 3-4 yn pennu targedau a cherrig milltir mesuradwy. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cynlluniau blynyddol yn nodi targedau a cherrig milltir clir ac yn sicrhau yr adroddir mewn modd effeithiol ar gynnydd, effaith a deilliannau. | Roedd y Cynllun drafft yn nodi'r targedau trosfwaol ar gyfer y flwyddyn a bydd gwaith yn chwarter 1 yn mireinio ac yn gosod cerrig milltir clir fesul chwarter.<br><br>Bydd gwaith i graffu ar y cynnydd gyda'r Cynllun, ei effaith a'i ddeilliannau'n parhau i ddigwydd trwy'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. | Gorffennaf 2021 | Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Phartneriaethau Strategol (Interim) |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Craffu gan Aelodau Annibynnol ar y modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol**<br>A2 Yn ystod ein gwaith ar gyfer Asesiad Strwythuredig 2021 ni chanfuom unrhyw weithgarwch i graffu ar y cynlluniau chwarterol gan y Bwrdd na'i bwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro'r cyfrifoldeb am drosolwg ar lefel strategol i fonitro'r modd y cyflawnir Cynllun Blynyddol 2021-22. | Y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yw'r pwyllgor allweddol o hyd ar gyfer goruchwylio datblygiad Cynllun Blynyddol 2021/22 a monitro'r modd y caiff ei gyflawni ar lefel strategol. Bydd gweithgarwch chwarterol ffurfiol i graffu ar gyflawni yn erbyn y cerrig milltir (A1) yn cael ei gynnwys ym mlaenraglen waith y pwyllgor, gan ddechrau ar ôl cymeradwyo'r Cynllun. | Wedi'i gwblhau | |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.